# HYSBYSIAD O ETHOLIAD

## Etholiad Senedd Cymru

## Ar gyfer Etholaeth Gŵyr Abertawe

1. Caiff etholiad ei gynnal ar gyfer Aelodau i wasanaethu yn y Senedd ar gyfer etholaeth Gŵyr Abertawe.

   Gellir cael papurau enwebu gan swyddfa'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE, neu'n electronig drwy etholiadau@abertawe.gov.uk.

2. Mae'n rhaid cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn Neuadd y Ddinas, Abertawe, SA1 4PE rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau'r banc) ond dim hwyrach na 4pm ar Ddydd Iau 9 Ebrill neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad o ddanfoniad electronig isod ond dim hwyrach na 4pm ar Ddydd Iau 9 Ebrill.

3. Os ymleddir yr etholiad, cynhelir y bleidlais ar Ddydd Iau 7 Mai 2026.

4. Mae'n rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn canol nos ar Ddydd Llun 20 Ebrill 2026. Gellir cyflwyno cais ar-lein: **https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**

5. Gellir talu'r ernes o £500 fesul ymgeisydd unigol, neu'r ernes o £500 am yr ymgeisydd cyntaf ar restr plaid, a £200 am bob un o'r pum ymgeisydd nesaf ar y rhestr plaid, trwy dendr cyfreithiol neu drwy ddrafft banciwr gan dynnwr sy'n cynnal busnes fel banciwr yn y Deyrnas Unedig, derbynnir taliadau cardiau debyd a BACS hefyd.

6. Mae'n rhaid i geisiadau, newidiadau neu achosion o ganslo pleidleisiau post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE erbyn 5pm ar Ddydd Mawrth 21 Ebrill 2026.

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 1PE

7. Mae’n rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE erbyn 5pm ar Ddydd Mawrth 28 Ebrill 2026.

   Mae’n rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE erbyn 5pm ar Ddydd Iau 7 Mai 2026.

**8. Datganiad o ddanfoniad electronig**

Rhaid i bapurau enwebu a gyflwynir yn electronig gael eu cyflwyno yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn.

Drwy e-bostio **enwebiadau@abertawe.gov.uk**

- Os ydych yn cyflwyno enwebiad ar gyfer gwiriad anffurfiol, defnyddiwch ‘GWIRIAD ANFFURFIOL’ yn y pennawd pwnc.
- Wrth gyflwyno'ch enwebiad i'w ystyried, defnyddiwch 'CYFLWYNO ENWEBIAD' yn y pennawd pwnc.
- Rhaid cyflwyno'ch papur enwebu fel atodiad, PDF neu ddogfen Word fyddai orau.
- Byddwch yn derbyn ateb awtomataidd pan fydd eich enwebiad wedi'i anfon.

Sylwer:

Cyfrifoldeb y Swyddog Enwebu ar gyfer plaid neu ymgeiswyr unigol fel sy’n briodol yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn derbyn ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiadau cau gofynnol.

Nid yw derbyniad darllen electronig gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn anfon hysbysiad o’u penderfyniad p'un a yw’r enwebiad yn ddilys ai peidio.

Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch gydag anfon enwebiadau’n electronig, cysylltwch â etholiadau@abertawe.gov.uk

Dyddiedig: 25 Mawrth 2026

Martin Nicholls
Y Swyddog Canlyniadau Etholaethol

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 1PE